Mae angen i'r dysgwr ddatblygu dealltwriaeth glir o hylendid personol. Mae angen iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu hylendid eu hunain a deall yr angen i gyflawni trefn hylendid ddyddiol a'r hyn y mae'n ei olygu.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr nodi'r hyn sy'n ffurfio trefn hylendid personol dda.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr nodi pam mae hylendid personol da yn bwysig.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr nodi effeithiau cymdeithasol negyddol hylendid personol gwael.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr nodi'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â hylendid personol gwael.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr nodi ystyr cyflwyniad personol da.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr nodi pam mae cyflwyniad personol da yn bwysig.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr nodi effeithiau negyddol cyflwyniad personol gwael.

RHAU:	M/506/3114
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	25
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddeddfwriaeth diogelwch a gweithio'n ddiogel yn y gwaith
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 413 Lefel 1 Dysgu diogel yn y gweithle

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Ar goll yn y Saesneg
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi rheswm pam mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn bwysig yn y gweithle 1.2 nodi'r deddfau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i wahanol weithleoedd.
Cwmpas
1.2 deddfau - PPE, arferion gweithio diogel (defnyddio offer), amgylchedd gweithio glân, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gwybod am risgiau a pheryglon yn y gweithle.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru'r prif beryglon mewn gweithle 2.2 rhestru'r prif risgiau yn y gweithle 2.3 cyfrannu at asesiad risg.

Cwmpas
2.1 prif beryglon - ceblau llusgo, allanfeydd tân wedi'u blocio, offer trydanol. 2.2 prif risgiau – llithro, baglu a chwympo, dim llwybr osgoi, sioc drydanol, anaf neu farwolaeth.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gwybod pa gyfrifoldebau sydd gan bobl am ddiogelwch yn y gweithle.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

nodi'r person sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y gweithle

3.2 nodi eu hymddygiad eu hunain ar gyfer ymarfer diogel yn y gweithle

3.3 nodi eu cyfrifoldeb eu hunain am roi gwybod am beryglon yn y gweithle

3.4 nodi'r camau i'w dilyn yn achos:

a. tân

b. damwain

c. argyfwng.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr roi un rheswm pam mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn bwysig yn y gweithle.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr nodi'r deddfau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i bob gweithle.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr restru'r prif beryglon mewn gweithle.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr restru'r prif risgiau mewn gweithle.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr gynllunio sut i leihau unrhyw risgiau a/neu beryglon e.e. peryglon a risgiau i iechyd a diogelwch, risgiau'n perthyn i argaeledd amser, offer a deunyddiau ac ati. Ni ddylid gofyn i ddysgwyr gynnal asesiadau risg.

Ar gyfer maen prawf 3.1 dylai'r dysgwr fod yn benodol gan fod y gweithle yn golygu naill ai lleoliad man gwaith/profiad gwaith y dysgwr neu ei h/amgylchedd gwaith posibl.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr nodi ei ymddygiad ei hun ar gyfer arferion diogel yn y gweithle a chynnal arferion diogel.

Ar gyfer maen prawf 3.3 mae angen i'r dysgwr ddeall bod gan bawb gyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch a dylent allu nodi eu cyfrifoldebau eu hunain yn glir iddynt hwy eu hunain ac i eraill.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r dysgwr roi manylion camau i'w dilyn yn achos:

- a. tân
- b. damwain
- c. argyfwng

Dylai'r dysgwr ystyried galwadau ffug a'r peryglon/effeithiau a all fod gan y rhain.

RHAU:	Y/505/4651
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	14
Nod:	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i deall pam mae cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol yn bwysig a phryd y gellid defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu ysgrifenedig. Bydd y dysgwr yn paratoi ystod o gyfathrebiadau ysgrifenedig.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 204 Mynediad 2 Cyfathrebu effeithiol • 304 Mynediad 3 Cyfathrebu effeithiol • 322 Mynediad 3 Siarad effeithiol ar gyfer y gweithle • 404 Lefel 1 Cyfathrebu effeithiol

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall mathau gwahanol o gyfathrebu ysgrifenedig.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 nodi mathau gwahanol o gyfathrebu ysgrifenedig 1.2 nodi'r gwahanol sefyllfaoedd lle gellid defnyddio cyfathrebu ysgrifenedig ffurfiol ac anffurfiol.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall pam mae cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol yn bwysig.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 datgan pam mae cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol yn bwysig

2.2 rhoi enghreifftiau o **iaith ysgrifenedig briodol** ac **amhriodol** .

Cwmpas

2.2 **iaith ysgrifenedig briodol** fformat addas, strwythuredig, mynd i'r afael â phobl yn gywir.

2.2 **iaith ysgrifenedig amhriodol** - defnyddio bratiaith, yn rhy anffurfiol ar gyfer y sefyllfa.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gallu anfon cyfathrebiad ysgrifenedig ar gyfer y gweithle.

Meini prawf asesu

2.1

2.2

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 anfon cyfathrebiad ysgrifenedig ffurfiol

3.2 anfon cyfathrebiad ysgrifenedig anffurfiol

3.3 ateb cyfathrebiad ysgrifenedig.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf dri math gwahanol o gyfathrebu ysgrifenedig. Gallai tystiolaeth fod yn rhestr neu enghreifftiau o'r gwahanol fathau.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf ddwy sefyllfa lle gellid defnyddio cyfathrebu ffurfiol a dwy sefyllfa lle gellid defnyddio cyfathrebu ysgrifenedig anffurfiol. Gallai tystiolaeth fod yn rhestr neu enghreifftiau o'r gwahanol fathau.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr roi enghreifftiau o **iaith ysgrifenedig briodol** ac **iaith ysgrifenedig amhriodol**. Gallai hyn fod yn rhestr neu'n enghreifftiau o'r gwahanol fathau.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr nodi pam mae cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol yn bwysig. Gall hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr baratoi cyfathrebiad ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer y gweithle. Gall hyn fod mewn llawysgrifen neu ddefnyddio TGCh. Er enghraifft, gallai hwn fod yn llythyr cais ysgrifenedig neu'n e-bost at gwmni i gwyno am ddanfon yn hwyr.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr baratoi cyfathrebiad ysgrifenedig anffurfiol ar gyfer y gweithle. Gall hyn fod mewn llawysgrifen neu ddefnyddio TGCh. Er enghraifft, gallai hyn fod yn nodyn neu'n e-bost i gydweithiwr.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr baratoi ateb i gyfathrebiad ysgrifenedig ar gyfer y gweithle. Gall hyn fod mewn llawysgrifen neu ddefnyddio TGCh. Gallai hyn fod yn ateb i gyfathrebiad ffurfiol neu anffurfiol.

Ar gyfer deilliant 3 dylai'r cyfathrebu ysgrifenedig fod yn briodol i'r sefyllfa a dylai'r dysgwyr wirio eu sillafu, eu prydlondeb a'u gramadeg. Mae un neu ddau o gangymeriadau yn dderbyniol cyn belled â bod yr ystyr yn glir.

RHAU:	F/506/2727
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	30
Nod:	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i adnabod cyfleoedd gweithle posibl a'r hyn a ddisgwylir yn ystod lleoliad gwaith.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 420 Lefel 1 Ymgymryd â lleoliad gwaith

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gallu adnabod cyfleoedd posibl ar gyfer lleoliad gwaith.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 adnabod ei sgiliau a'i ddiddordebau ei hun 1.2 nodi cyfleoedd lleoliad gwaith sy'n cyd-fynd â'u sgiliau a'u diddordebau eu hunain.
Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gwybod beth a ddisgwylir yn ystod y lleoliad gwaith.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 nodi mathau o ymddygiad ac agweddau priodol ar gyfer y lleoliad gwaith 2.2 adnabod y ffyrdd a'r dull o gludiant i'w cymryd i fynychu'r lleoliad gwaith yn brydlon 2.3 nodi gwahanol dasgau i'w gwneud yn ystod y lleoliad gwaith 2.4 nodi ffynonellau priodol o gefnogaeth yn ystod y lleoliad gwaith 2.5 nodi canlyniad a ddymunir o'r lleoliad gwaith.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gallu adfyfrio ar brofiad y lleoliad gwaith.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 nodi beth aeth yn dda yn ystod y lleoliad gwaith
- 3.2 nodi'r hyn nad aeth yn dda yn ystod y lleoliad gwaith
- 3.3 nodi'r hyn a ddysgwyd am rôl y swydd a'u lleoliad gwaith
- 3.4 nodi beth gafodd ei ddysgu am rinweddau personol yn ystod y lleoliad gwaith
- 3.5 nodi sut i adeiladu ar brofiad y lleoliad gwaith.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr nodi ei sgiliau a'i ddi-ddordebau ei hun wrth ystyried lleoliad gwaith.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr nodi cyfleoedd lleoliad gwaith sy'n cyd-fynd â'i sgiliau a'i ddi-ddordebau ei hun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr nodi ymddygiadau ac agweddau priodol ar gyfer y lleoliad gwaith

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr adnabod y ffordd a'r dull o gludiant i'w cymryd i fynychu'r lleoliad gwaith yn brydlon.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr nodi tasgau gwahanol i'w cyflawni yn ystod y lleoliad gwaith.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r dysgwr nodi ffynonellau priodol o gymorth yn ystod y lleoliad gwaith.

Ar gyfer 2.5 mae angen i'r dysgwr nodi canlyniad dymunol y lleoliad gwaith.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr nodi'r hyn a aeth yn dda yn ystod y lleoliad gwaith.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr nodi'r hyn nad aeth yn dda yn ystod y lleoliad gwaith.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr nodi'r hyn a ddysgwyd am rôl y swydd a'i lleoliad gwaith.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r dysgwr nodi'r hyn a ddysgwyd am rinweddau personol yn ystod y lleoliad gwaith.

Ar gyfer 3.5 mae angen i'r dysgwr nodi sut i adeiladu ar brofiad y lleoliad gwaith

RHAU:	M/506/2724
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA	25
Nod:	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ennill dealltwriaeth sylfaenol o hawliau a chyfrifoldebau unigolion, agweddau ar y gyfraith a'r broses ddemocrataidd a'r broses etholiadol.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 318 Mynediad 3 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith • 416 Lefel 1 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth • 417 Lefel 1 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith • 441 Lefel 1 Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 rhoi enghraifft o hawl
- 1.2 rhoi enghraifft o gyfrifoldeb
- 1.3 nodi hawl unigol **berthnasol**
- 1.4 nodi ffynonellau o gefnogaeth neu wybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau
- 1.5 disgrifio cyfrifoldeb personol
- 1.6 disgrifio cyfrifoldeb sydd gan unigolyn tuag at eraill.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall hawliau a chyfrifoldebau dinesydd.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 rhoi enghraifft o hawliau a chyfrifoldebau dinesydd fel:

- a. defnyddiwr
- b. aelod o gymuned leol
- c. aelod o gymdeithas

2.2 Nodi **sut caiff hawliau dinesydd eu diogelu**.

Cwmpas

2.2 **sut mae hawliau dinesydd yn cael eu gwarchod** - deddfau, asiantaethau gorfodi.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall agweddau ar reolau a deddfau.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 rhoi rheswm pam mae angen rheolau ar gymdeithas

3.2 rhoi enghraifft o ddeddf a sut caiff ei gorfodi.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Gwybod am wahanol fathau o etholiadau.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 rhestru gwahanol fathau o etholiadau y gall unigolyn pleidleisio

4.2 ynddyn nhw

nodi pwy sy'n gallu pleidleisio mewn etholiad cyffredinol.

Cwmpas

4.1 **mathau o etholiadau** - cyffredinol, lleol, undeb llafur, pwyllgor, refferendwm, cyngor.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf un enghraifft o hawl. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf un enghraifft o gyfrifoldeb. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf un enghraifft o hawl sy'n berthnasol iddo yn ei sefyllfa. Dylai'r dysgwr ddweud pam mae hyn yn berthnasol iddyn nhw. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf ddwy ffynhonnell gefnogaeth neu wybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig, neu gall dysgwyr gynnwys y ffynonellau.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf un enghraifft o hawliau dinesydd ac un enghraifft o'u cyfrifoldebau dros bob un o'r penawdau canlynol:

- defnyddiwr
- aelod o gymuned leol
- aelod o gymdeithas

Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf un rheswm pam mae angen rheolau ar gymdeithas. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf un enghraifft o ddeddf a sut mae'n cael ei gorfodi

Ar gyfer 3.1 a 3.2 gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr restru o leiaf dri math gwahanol o etholiad y gall unigolyn bleidleisio ynddynt

Gellir rhoi tystiolaeth ar gyfer 4.1 i 4.2 gael ei rhoi ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio cyfrifoldeb personol sydd ganddo. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.6 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio cyfrifoldeb sydd gan unigolyn tuag at eraill. Efallai mai eu cyfrifoldeb eu hunain yw hyn. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr nodi pwy all bleidleisio mewn etholiad cyffredinol.

RHAU:	T/506/2725
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i'r cysyniad o gael hawliau yn y gwaith a beth yw eu chyfrifoldebau fel gweithiwr. Byddant hefyd yn ystyried pwysigrwydd parchu eraill yn y gweithle a gwybod ffynonellau cymorth ym maes hawliau a chyfrifoldebau.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 317 Mynediad 3 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth • 416 Lefel 1 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth • 417 Lefel 1 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith • 441 Lefel 1 Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 nodi hawliau cyflogai yn y gweithle 1.2 nodi chyfrifoldebau gweithwyr yn y gweithle 1.3 nodi chyfrifoldebau cyflogwyr yn y gweithle, 1.4 nodi pam y dylid parchu hawliau eraill 1.5 nodi ffynonellau o gymorth o fewn y gweithle.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf ddwy enghraifft o hawliau gweithwyr yn y gweithle.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf ddwy enghraifft o gyfrifoldebau gweithwyr yn y gweithle.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf ddwy enghraifft o gyfrifoldebau cyflogwr yn y gweithle.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf ddwy ffynhonnell gymorth yn y gweithle.

Gellir rhoi tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.5 ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr nodi pam y dylid parchu hawliau eraill.

RHAU:	J/501/6946
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw cefnogi'r dysgwr wrth gynllunio, cynnal a gwerthuso prosiect (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil) o'i d/ddewis ei hun.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 418 Lefel 1 Prosiect yr ymgeisydd • 505 Lefel 2 Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Cynllunio prosiect (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil).
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 cytuno ar brosiect addas 1.2 rhestru'r camau sy'n rhan o'r prosiect 1.3 cytuno ar amserlen ar gyfer y gweithgareddau 1.4 cytuno ar y cynllun gyda pherson addas.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Cynnal prosiect.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 dilyn y cynllun prosiect 2.2 adolygu cynnydd gyda pherson addas 2.3 cwblhau'r prosiect.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. adolygu'r prosiect.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 nodi beth aeth yn dda 3.2 nodi beth nad aeth yn dda.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar brosiect addas (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil) gyda'r aseswr neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad aseswr.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr **restru'r** camau sy'n rhan o'r prosiect.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar amserlen ar gyfer y gweithgareddau h.y. gyda'r aseswr neu oruchwyliwr.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar y cynllun gyda pherson addas h.y. tiwtor neu oruchwyliwr.

Gall tystiolaeth am 1.2 i 1.4 fod yn gynllun prosiect manwl wedi'i lofnodi gan y dysgwr ac aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr **ddilyn** y cynllun prosiect y cytunwyd arno yn 1.4. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr, yn ffotograffau wedi'u hanodi, neu'n ddyddiadur ac arsylwad aseswr neu ddatganiad tyst.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr **adolygu** cynnydd gyda pherson addas h.y. tiwtor neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth fod yn gofnod adolygu ysgrifenedig.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr **gwblhau'r** prosiect. Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad y prosiect e.e. darn o ymchwil neu wrthrych wedi'i gwblhau, datganiad aseswr a/neu fideo, ffotograff neu recordiad sain.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr **nodi'r** hyn a aeth yn dda. Gallai hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr **nodi'r** hyn nad aeth yn dda. Gallai hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 a 3.2 fod yn ddatganiad dysgwr neu'n gofnod adolygu.

RHAU:	T/506/3115
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	28
Nod:	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddatblygu ei sgiliau menter trwy gynllunio, cynnal ac adolygu cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 321 Mynediad 3 Prosiect cymunedol • 419 Lefel 1 Gweithgaredd mentergarwch: Cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth • 421 Lefel 1 Prosiect cymunedol

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gallu cynllunio gweithgaredd mentergarwch.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 dewis gweithgaredd menter 1.2 nodi pryd a ble i gael y gweithgaredd menter 1.3 nodi beth sydd angen ei wneud 1.4 rhestru'r offer a'r deunyddiau sydd eu hangen 1.5 hysbysebu'r gweithgaredd menter.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gallu cynnal gweithgaredd mentergarwch.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 ymgymryd â'r gweithgaredd mentergarwch yn ddiogel.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. Gallu adolygu gweithgaredd mentergarwch.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 nodi un agwedd o'r gweithgaredd a aeth yn dda 3.2 nodi agwedd o'r gweithgaredd nad aeth yn dda 3.3 adnabod gwelliant a allai gael ei wneud i'r gweithgaredd.

Arweiniad a Thystiolaeth

Gallai tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn gynllun ar gyfer y gweithgaredd.

Gallai tystiolaeth am 1.5 fod yn boster, taflen neu recordiad sain.

Mae tystiolaeth ar gyfer 2.1 yn debygol o fod yn ddatganiad aseswr neu dyst. Gall hyn gael ei ategu gan ddatganiad ymgeisydd, datganiadau cymheiriaid a thystiolaeth ffotograffig.

Gallai tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.3 gael ei chasglu yn ystod adolygiad gydag aseswr neu gallai fod yn ddatganiad dysgwr.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr ddewis gweithgaredd menter. Gall y gweithgaredd fod yn weithgaredd grŵp neu unigol a gellir ei ddewis o blith ystod o weithgareddau a awgrymwyd gan eu haseswr neu grŵp. Os yw hwn yn weithgaredd grŵp dylai'r dysgwr ddewis gweithgaredd menter a chefnogi ei ddewis mewn trafodaeth grŵp. Nid oes ots os na ddewiswyd dewis y dysgwr gan y grŵp. Dylai'r cytunwr ddewis y gweithgaredd gyda'r aseswr.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr nodi pryd a ble i gael y gweithgaredd menter. Os yw hwn yn weithgaredd grŵp dylai'r dysgwr nodi pryd a ble i gael y gweithgaredd menter a chefnogi ei ddewis mewn trafodaeth grŵp. Nid oes ots os na ddewiswyd dewis y dysgwr gan y grŵp.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr nodi beth sydd angen ei wneud ar gyfer y gweithgaredd y cytunwyd arno.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr restru'r offer a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd y cytunwyd arno.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr hysbysebu'r gweithgaredd menter.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr ymgymryd â'r gweithgaredd menter yn ddiogel.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf un agwedd ar y gweithgaredd a aeth yn dda.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf un agwedd ar y gweithgaredd nad aeth yn dda.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr adnabod o leiaf un gwelliant a allai gael ei wneud i'r gweithgaredd.

RHAU:	M/501/6942
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	24
Nod:	Nod yr uned yw helpu'r dysgwr i gynllunio, cynnal ac adolygu prosiect cymuned.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 320 Mynediad 3 Gweithgaredd mentergarwch • 419 Lefel 1 Gweithgaredd mentergarwch - cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth • 421 Lefel 1 Prosiect cymunedol

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gallu cytuno ar brosiect cymunedol addas.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhestru opsiynau ar gyfer prosiect cymunedol 1.2 cytuno ar brosiect cymunedol addas.
Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gallu cynllunio prosiect cymunedol addas.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru pwy fydd yn gwneud beth 2.2 cytuno ar amserlen addas 2.3 rhestru unrhyw offer a deunyddiau sydd eu hangen 2.4 nodi unrhyw help sydd ei angen 2.5 cytuno ar gynllun addas (gydag aelodau tîm os yw'n gweithio mewn tîm).

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gallu cyfrannu at asesiad risg ar gyfer y prosiect.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 rhestru risgiau a pheryglon posibl

3.2 cynllunio sut i leihau unrhyw risgiau neu beryglon.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Dilyn y cynllun prosiect.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 cyflawni'r tasgau a nodwyd yn y cynllun

4.2 adolygu cynnydd gyda thiwtor (ac aelodau tîm os yw'n gweithio mewn tîm)

addasu'r cynllun yn ôl yr angen

4.4 gweithio'n ddiogel.

Bydd y dysgwr yn:

5. Adolygu'r prosiect.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

5.1 rhestru beth aeth yn dda

5.2 rhestru beth allai fod wedi cael ei wella.

Arweiniad a Thystiolaeth

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gynnal prosiect cymunedol.

Bydd hyd a chwmpas y prosiect yn dibynnu ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd angen i'r tiwtor / goruchwyliwr sicrhau bod pob agwedd ar y prosiect yn ddiogel ac yn gyfreithiol.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **restru** dewisiadau ar gyfer prosiect cymunedol e.e. addurno canolfan gymunedol, clirio ardal chwarae sydd wedi tyfu'n wyllt.

Ar gyfer 1.2 rhaid i'r dysgwr **gytuno** ar brosiect cymunedol addas h.y. prosiect sy'n ddichonadwy o fewn cyfyngiadau fel lefel sgiliau ac amser. Rhaid i'r prosiect gael ei gytuno gyda'r aseswr neu oruchwyliwr.

Gall tystiolaeth 1.1 i 1.2 fod yn ddatganiad dysgwr wedi'i gefnogi neu ei amlygu gan ddogfennaeth wedi'i hanodi ac wedi'i llofnodi gan yr aseswr a'r dysgwr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr **restru** pwy fydd yn gwneud beth.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar amserlen addas. Bydd hyn yn dibynnu ar fath y prosiect a'r amser sydd ar gael.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr **restru** unrhyw offer a deunyddiau sydd eu hangen.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r dysgwr **nodi** unrhyw gymorth yr oedd ei angen. Gall hyn fod gan yr aseswr, y goruchwyliwr neu berson arall.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.4 fod yn ddatganiad dysgwr wedi'i ategu gan ddogfennaeth anodedig neu wedi'i hamlygu wedi'i llofnodi gan yr aseswr neu gofnod aseswr o drafodaeth a / neu gwestiynau.

Ar gyfer 2.5 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar gynllun addas. Bydd hyn gyda'r aseswr neu'r goruchwyliwr. Dylai tystiolaeth fod yn gynllun y prosiect gydag anodiadau i ddangos cytundeb gan yr aseswr / goruchwyliwr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr **restru** risgiau a pheryglon posibl.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr **gynllunio** sut i leihau unrhyw risgiau a/neu beryglon e.e. peryglon a risgiau i iechyd a diogelwch, risgiau'n perthyn i argaeledd amser, offer a deunyddiau ac ati. Ni ddylid gofyn i ddysgwyr gynnal asesiadau risg.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 a 3.2 fod yn ddatganiad dysgwr neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr **gyflawni**'r tasgau a nodwyd yn y cynllun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr neu'n ddyddiadur a/neu'n arsylwad aseswr neu ddatganiad tyst.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr **adolygu** cynnydd gydag aelodau'r tîm a / neu'r aseswr neu'r goruchwyliwr. Gall tystiolaeth fod yn gofnod adolygu ysgrifenedig.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r dysgwr **adolygu'r** cynllun yn ôl yr angen. Gall fod nifer o resymau dros adolygu, e.e. diffyg cynnydd, pobl eraill ddim yn cwrdd â therfynau amser. Dylai unrhyw newidiadau gael eu cytuno gyda'r aseswr. Gall tystiolaeth fod yn gynllun wedi'i anodi.

Ar gyfer 4.4 mae angen i'r dysgwr **weithio'n ddiogel** h.y. dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch y sefydliad a defnyddio Offer Amddiffyn Personol (PPE) os yw'n briodol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad tyst neu'n arsylwad aseswr.

Ar gyfer maen prawf 5.1 mae angen i'r dysgwr **restru'r** hyn a aeth yn dda.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r dysgwr **restru'r** hyn y gellid bod wedi'i wella.

Gall tystiolaeth ar gyfer 5.1 a 5.2 fod yn ddatganiad dysgwr a/neu'n gofnod adolygu ysgrifenedig.

Uned 322

Siarad effeithiol ar gyfer y gweithle

RHAU:	R/505/4650
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	16
Nod:	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddatblygu'r sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen i fagu hyder gyda'r gwahanol bobl y maen nhw'n dod ar eu traws yn y gweithle, gan ddeall y gwahaniaeth rhwng sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol a'r iaith sy'n briodol i bob sefyllfa.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none">• 204 Mynediad 2 Cyfathrebu effeithiol• 304 Mynediad 3 Cyfathrebu effeithiol• 315 Mynediad 3 Cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol ar gyfer y gweithle• 404 Lefel 1 Cyfathrebu effeithiol• 504 Lefel 2 Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gwybod pam mae hi'n bwysig siarad yn effeithiol yn y gwaith.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 disgrifio pam mae hi'n bwysig siarad yn effeithiol yn y gweithle
- 1.2 disgrifio pam mae hyder yn bwysig i siarad yn effeithiol yn y gweithle.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gallu defnyddio iaith briodol i'w defnyddio mewn sefyllfa wyneb yn wyneb yn y gweithle.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 disgrifio'r gwahaniaeth rhwng **iaith ffurfiol** ac **iaith anffurfiol**
- 2.2 siarad yn ffurfiol neu'n anffurfiol fel sy'n addas yn y sefyllfa
- 2.3 nodi ffyrdd o ddangos cwртеisi wrth siarad ag eraill yn y gweithle

- 2.4 nodi pwysigrwydd iaith gadarnhaol y corff mewn sefyllfa wyneb yn wyneb.

Cwmpas

2.1 **iaith ffurfiol** - wedi'i strwythuro, annerch pobl yn gywir.

2.1 **iaith anffurfiol** - defnyddio bratiath.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gallu gwneud a derbyn galwad ffôn yn y gweithle.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 nodi'r gwahaniaethau rhwng sgwrs wyneb yn wyneb a ffôn
- 3.2 awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael â rhai o'r gwahaniaethau
- 3.3 gwneud galwad ffôn ffurfiol
- 3.4 ateb galwad ffôn yn y gweithle.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Gallu cyfrannu at sgrysiâu a thrafodaethau yn y gweithle.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 gwneud sylwadau ac awgrymiadau perthnasol
- 4.2 gofyn ac ateb cwestiynau syml
- 4.3 cynnig syniadau neu farn gadarnhaol.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer 2.2 Gallai tystiolaeth fod yn ddatganiad tyst.

Ar gyfer 3.1 gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 3.3 a 3.4 mae tystiolaeth yn debygol o fod yn aseswr neu'n ddatganiad tyst a gall gynnwys recordiad sain.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr gymryd rhan mewn o leiaf un sgwrs neu drafodaeth yn y gweithle a gwneud o leiaf un sylw perthnasol ac o leiaf un awgrym.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr gymryd rhan mewn o leiaf un sgwrs neu drafodaeth yn y gweithle. Mae angen i'r dysgwr ofyn o leiaf un cwestiwn syml ac ateb o leiaf un cwestiwn syml.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r dysgwr gymryd rhan mewn o leiaf un sgwrs neu drafodaeth yn y gweithle. Mae angen i'r dysgwr wirfoddoli o leiaf un syniad neu farn gadarnhaol.

Mae tystiolaeth am 4.1 i 4.3 yn debygol o fod yn ddatganiad tyst neu aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio pam mae hi'n bwysig siarad yn effeithiol yn y gweithle. Gellir rhoi'r disgrifiad hwn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio pam mae hyder yn bwysig i siarad yn effeithiol yn y gweithle. Gellir rhoi'r disgrifiad hwn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio'r gwahaniaeth rhwng **iaith ffurfiol** ac **iaith anffurfiol**. Gellir rhoi'r disgrifiad hwn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr siarad yn ffurfiol neu'n anffurfiol fel sy'n briodol i'r sefyllfa. Mae angen i'r dysgwr ddefnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer sefyllfa wyneb yn wyneb.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr nodi ffyrdd i ddangos cwrteisi wrth siarad ag eraill yn y gweithle. Gall y dysgwr gyfeirio at ei berfformiad ei hun yn 2.2 neu roi enghreifftiau eraill.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd iaith gorff bositif mewn sefyllfa wyneb yn wyneb. Gall y dysgwr gyfeirio at ei berfformiad ei hun yn 2.2 yn ei ddatganiad neu roi enghreifftiau eraill

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf ddau wahaniaeth rhwng sgwrs wyneb yn wyneb a sgwrs ffôn.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael ag o leiaf ddau o'r gwahaniaethau a nodwyd yn 3.1

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr wneud galwad ffôn ffurfiol sy'n addas ar gyfer lleoliad gweithle.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r dysgwr ateb galwad ffôn mewn lleoliad gweithle.

RHAU:	T/505/4642
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Nod:	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall pwysigrwydd agweddau a gwerthoedd personol. Bydd y dysgwr yn cael ei gynorthwyo i gydnabod ac adeiladu ar gryfderau personol.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 425 Lefel 1 Sgiliau effeithiol, rhinweddau ac agweddau ar gyfer dysgu a gweithio • 502 Lefel 2 Sgiliau effeithiol, rhinweddau ac agweddau ar gyfer dysgu a gweithio

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall pwysigrwydd agweddau a gwerthoedd personol.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi beth yw agwedd nodi beth
- 1.2 yw gwerth
- 1.3 nodi pwysigrwydd eu gwerthoedd eu hunain a gwerthoedd pobl eraill
- 1.4 nodi eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain
- 1.5 nodi sut mae gwerthoedd ac agweddau'n gallu dylanwadu ar lwyddiant personol.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall sut i ddatblygu cryfderau personol.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 nodi pwysigrwydd gallu i addasu a hyblygrwydd
- 2.2 nodi pwysigrwydd cymhelliant
- 2.3 nodi pwysigrwydd ymrwymiad nodi
- 2.4 pwysigrwydd gwytnwch
- 2.5 adolygu eu cryfderau personol
- 2.6 creu cynllun gweithredu i ddatblygu **cryfderau personol**.

Cwmpas

2.6 **cryfderau personol** - gallu i addasu, hyblygrwydd, cymhelliant, ymrwymiad, gwytnwch.

Arweiniad a Thystiolaeth

Gallai tystiolaeth ar gyfer 1.3 i 1.5 fod yn ddatganiad ymgeisydd. Gellir rhoi hyn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr nodi beth yw agwedd. Gallan nhw ddiffinio neu esbonio hyn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr nodi beth yw gwerth. Gallan nhw ddiffinio neu esbonio hyn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd ei werthoedd ei hun a phobl eraill. Dylai'r dysgwr adnabod y gallai fod gan bobl werthoedd gwahanol a bod gwerthoedd yn bwysig i bobl.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr nodi rhai o'i werthoedd a'i agweddau ei hun. Gall agweddau fod yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr nodi sut y gall gwerthoedd ac agweddau ddylanwadu ar lwyddiant personol. Efallai y bydd y dysgwr yn elwa o ystyried ei werthoedd a'i agweddau ei hun, fel y nodwyd yn 1.4, a sut y gall y rhain ddylanwadu ar eu llwyddiant personol eu hunain.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd gallu i addasu a hyblygrwydd. Gallent roi enghraifft, e.e. gallu ymateb yn briodol i amgylchiadau newidiol, a dweud pam mae hyn yn bwysig ar gyfer dysgu neu waith.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd cymhelliant mewn perthynas â dysgu neu waith. Gallent roi enghraifft a dweud pam mae hyn yn bwysig ar gyfer dysgu neu waith.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd ymrwymiad ar gyfer dysgu neu waith. Gallent roi enghraifft a dweud pam mae hyn yn bwysig ar gyfer dysgu neu waith.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd gwytnwch. Gallent roi enghraifft a dweud pam mae hyn yn bwysig ar gyfer dysgu neu waith.

Ar gyfer 2.5 mae angen i'r dysgwr adolygu ei gryfderau personol ei hun gyda pherson priodol. Er y dylai hwn fod yn ymarfer cadarnhaol, dylai'r dysgwr nodi o leiaf ddau faes i'w gwella.

Ar gyfer 2.6 mae angen i'r dysgwr greu cynllun gweithredu i ddatblygu ei gryfderau personol a nodwyd yn 2.5. Dylai'r cynllun fod yn gyraeddadwy a chytuno arno gyda pherson priodol.

Uned 324 hamdden

Cymryd rhan mewn gweithgareddau

RHAU:	K/506/2785
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i ystod o weithgareddau hamdden
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu adnabod gwahanol fathau o weithgareddau hamdden.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi **gweithgareddau hamdden**.

Cwmpas

- 1.1 **gweithgareddau hamdden** - heriol, ymlaciol ac ati.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 cymryd rhan mewn gweithgaredd heriol
- 2.2 adolygu gweithgaredd heriol
- 2.3 cymryd rhan mewn gweithgaredd ymlaciol
- 2.4 adolygu gweithgaredd ymlaciol.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** gweithgareddau chwarae e.e. chwaraeon, cymdeithasol, teulu, clybiau, hobiau a diddordebau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **gymryd rhan** mewn gweithgaredd heriol e.e. gweithgaredd nad yw wedi'i wneud o'r blaen, yn goresgyn ofnau, yn gwthio terfynau gallu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar gyda chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **adolygu** gweithgaredd heriol e.e. amlinellu'r gweithgaredd ac yna nodi agweddau a gafodd eu mwynhau ac na chawsant eu mwynhau a / neu agweddau a aeth yn dda ac nad oeddent gystal. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **gymryd rhan** mewn gweithgaredd ymlaciol e.e. y tu allan i'r gwaith / coleg / man astudio, yn ei amser hamdden ei hun, i leihau straen, hyrwyddo lles. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **adolygu** gweithgaredd ymlaciol e.e. amlinellu'r gweithgaredd ac yna nodi agweddau a gafodd eu mwynhau ac na chawsant eu mwynhau ac os oedd y gweithgaredd yn helpu i hyrwyddo ymlacio. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig.

Rhaid i'r dysgwr gymryd rhan mewn gweithgaredd heriol ac ymlaciol, sy'n apelio at ei ddewisiadau ffordd o fyw ei hun.

RHAU:	R/506/2652
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Nod:	Nod yr uned hon yw cydnabod buddion amser hamdden.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall ystyr amser hamdden.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 diffinio ystyr **amser hamdden**.

Cwmpas

- 1.1 **amser hamdden** - amser wedi'i dreulio gyda ffrindiau a/neu deulu, cynnal hobi, chwarae chwaraeon/gemau neu amser ar eich pen eich hun ac ati.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gallu nodi gweithgareddau hamdden.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 rhestru gweithgareddau amser hamdden
- 2.2 nodi amser sydd ar gael ar gyfer hamdden.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. Gallu adnabod manteision amser hamdden.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 amlinellu manteision amser hamdden.

Cwmpas
3.1 manteision amser hamdden – iechyd, bywyd cymdeithasol bywyd, teulu bywyd, dysgu sgiliau newydd ac ati.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ystyr amser hamdden, e.e. defnyddio amser rhydd i fwynhau, amser a dreulir gyda ffrindiau a / neu deulu, yn dilyn hobi, chwarae chwaraeon / gemau neu amser ar ei b/phen ei hun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **restru** gweithgareddau amser hamdden, e.e. cymdeithasu â theulu a ffrindiau, gwirfoddoli, hobiau a diddordebau, chwaraeon, ymarfer corff, gweithgareddau awyr agored, cerddoriaeth, gemau cyfrifiadurol, siopa, clybiau a chymdeithasau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** amser sydd ar gael ar gyfer hamdden, e.e. amser nad yw wedi ymrwymo i waith /astudio/ hyfforddi neu gyfrifoldebau eraill.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi, yn ddiagram corryn, yn amserlen neu'n log dyddiadur.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** manteision amser hamdden, e.e. sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, dysgu sgil newydd, lleihau straen, cwrdd â phobl newydd, ffordd iach o fyw, agwedd fwy optimistaidd ar fywyd, cymryd i fyny hobiau a diddordebau newydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corryn.

Uned 326

Cynllunio a gwneud taith gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus

RHAU:	Y/502/0841
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Bydd y dysgwr yn gallu cynllunio a gwneud taith ar drafnidiaeth gyhoeddus.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu cynllunio a gwneud taith ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 cynllunio i wneud taith
- 1.2 nodi pam dylai taith gael ei chynllunio
- 1.3 paratoi i wneud taith
- 1.4 nodi pam dylid gwneud teithiau mewn dull cyfrifol
- 1.5 gwneud taith.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer yr uned hon, rhaid cymryd taith realistig, a bydd angen i'r dysgwr ddefnyddio o leiaf un dull o drafndiaeth gyhoeddus.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr:

- nodi dull priodol o gludiant
- nodi amserau cychwyn a dychwelyd
- nodi arhosfan bws, gorsaf reilffordd a phlatfform neu safle tacsï yn gywir.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros gynllunio taith.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr:

- dewis a gwisgo dillad sy'n briodol ar gyfer y tywydd
- dod i wybod cost y daith
- cymryd digon o arian i dalu'r pris a gwariant posibl arall
- mynd â'ch ffôn symudol neu arian mân cywir ar gyfer ffôn talu
- mynd â rhif ffôn cyswllt brys gyda chi
- cadarnhau manylion taith gyda'r gyrrwr neu'r gweithiwr trafndiaeth
- prynu tocyn a gwirio'r newid.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros wneud taith mewn modd diogel a chyfrifol.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr:

- defnyddio tirnodau cyfarwydd i wirio cynnydd taith, fel sy'n briodol
- gadael cludiant yn ddiogel yn y gyrchfan
- parhau â'r daith, fel y bo'n briodol
- gwybod ble i gael help os oes angen
- defnyddio iaith briodol i ofyn am gymorth os oes angen.

RHAU:	T/502/0782
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwr i godi, trin a symud gwrthrychau a deunydd yn gywir ac yn ddiogel.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu codi, trafod a symud gwrthrychau a defnyddiau.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 paratoi i godi eitemau
- 1.2 codi a symud **eitemau'n** ddiogel.

Cwmpas

1.2 **eitemau** - sach, bag, blwch mawr, gwrthrych bach trwm, deunyddiau rhydd ond rhaw (e.e. tywod neu bridd), blociau concrit, briciau, berfa sach, berfa olwyn, bin sbwriel, bin olwyn, ac ati.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod pam dylid codi gwrthrychau'n ddiogel.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 nodi peryglon codi gwrthrychau
- 2.2 nodi peryglon defnyddio safle/ystum corff anghywir i godi a symud gwrthrychau.

Gofynion Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer yr uned hon, dylai fod mynediad at ystod o eitemau i'w trin a'u codi, sy'n briodol i'r lleoliad y mae'r dysgwr yn gweithredu / gweithio ynddo.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr ddewis a gwisgo dillad amddiffynnol personol.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr adnabod **pedair** eitem i'w codi neu eu symud, rhaid iddynt wedyn:

- mabwysiadu'r safle corff cywir i godi neu symud eitemau yn ddiogel
- codi neu symud eitemau yn ddiogel gan ddefnyddio'r dechneg gywir
- glanhau a storio dillad amddiffynnol personol
- golchi a sychu dwylo

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr nodi peryglon codi gwrthrychau yn anghywir.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr nodi peryglon defnyddio ystumiau / safleoedd corff anghywir ar gyfer codi a symud gwrthrychau.

Uned 328 Cwro a chaboli car neu fan modur

RHAU:	D/502/0761
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	30
Nod:	Nod yr uned hon yw sicrhau bod y dysgwr yn gallu cwro a chaboli cerbyd yn gywir ac yn ddiogel.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu cwro a chaboli car neu fan modur.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi **cerbyd** i gael ei gwro a'i gaboli
- 1.2 nodi **prif rannau allanol** cerbyd
- 1.3 paratoi defnyddiau glanhau
- 1.4 cynnal gweithgareddau i gwro a chaboli cerbyd
- 1.5 rhoi rheswm dros ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- 1.6 nodi pam mae angen i'r cerbyd fod yn rhydd o faw
- 1.7 rhoi rheswm dros ddefnyddio clytiau meddal
- 1.8 nodi pam dylid defnyddio'r defnyddiau glanhau cywir ar gyfer gwahanol rannau o'r cerbyd
- 1.9 defnyddio, glanhau a storio PPE yn ddiogel.

Cwmpas

- 1.1 **cerbyd** -car neu fan
- 1.2 **prif rannau allanol** : to, adain, drysau, boned, clawr cist, bymperi, olwynion

Uned 328 Cwyo a chaboli car neu fan modur

Gwybodaeth ategol

Arweiniad a Thystiolaeth

Mae'r uned hon yn cynnwys cwyo / caboli cerbyd modur yn unig. Dylai'r cerbyd gael ei lanhau i baratoi ar gyfer yr uned hon. Dylai'r dysgwr ddewis a gwisgo dillad amddiffynnol personol.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr nodi'r cerbyd, y car neu'r fan, i'w gwyo a'i gaboli.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr adnabod pob un o'r prif rannau allanol canlynol:

- to
- adain
- drysau
- boned
- clawr cist
- bymperi
- olwynion.

Ar gyfer maen prawf, 1.3 rhaid i'r dysgwr adnabod a chasglu'r deunyddiau glanhau canlynol:

- clytiau cwyo a chaboli
- cabol cwyo (hylif neu solet).

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr:

- gwirio bod y cerbyd yn lân ac yn rhydd o faw
- gosod cabol yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- symud / bwffio'r sglein fel yr argymhellir gan y gwneuthurwr
- glanhau'r bymperi a'r olwynion gan ddefnyddio'r deunyddiau glanhau argymelledig a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- gwirio bod yr holl arwynebau wedi'u trin fel y bo'n briodol.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Ar gyfer maen prawf 1.6 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros wirio bod y cerbyd yn lân ac yn rhydd o faw.

Ar gyfer maen prawf 1.7 rhaid i'r dysgwyr nodi rheswm dros ddefnyddio clytiau meddal ar gyfer rhoi a symud cwyr a chabol.

Ar gyfer maen prawf 1.8 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros ddefnyddio'r deunyddiau glanhau cywir ar gyfer gwahanol rannau o'r cerbyd.

Ar gyfer maen prawf 1.9 rhaid i'r dysgwr:

- glanhau a thacluso ardal weithio
- glanhau a storio dillad amddiffynnol personol
- golchi a sychu dwylo'n drylwyr.

Uned 329 Symud, gwirio a newid olwyn ar gar neu fan modur

RHAU:	H/502/0762
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw sicrhau bod y dysgwr yn gallu symud, gwirio a newid olwyn ar gerbyd yn gywir ac yn ddiogel.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu gwirio olwyn a rhoi un newydd ar gar neu fan modur.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi offer a chyfarpar a gwirio am ddiogelwch i'w defnyddio
- 1.2 rhoi rheswm dros lacio nyttiau olwyn cyn jacio i fyny
- 1.3 rhoi rheswm dros ddefnyddio standiau echel
- 1.4 rhoi rheswm dros ddefnyddio blociau
- 1.5 tynnu olwyn o gerbyd
- 1.6 gwirio cyflwr olwyn
- 1.7 nodi pam mae angen gwirio cyflwr olwynion
- 1.8 newid olwyn ar gerbyd
- 1.9 defnyddio, glanhau a storio PPE yn ddiogel.

Uned 329 Symud, gwirio a newid olwyn ar gar neu fan modur Gwybodaeth ategol

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer yr uned hon rhaid i'r cerbyd gael ei godi, ei sicrhau a'i ostwng gan berson arall â chymwysterau addas. Dim ond ar ôl i'r cerbyd gael ei sicrhau y mae'n ofynnol i'r dysgwr newid yr olwyn, rhaid iddo hefyd ddewis a gwisgo dillad amddiffynnol personol.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr adnabod yr holl offer a chyfarpar canlynol i'w defnyddio:

- Jac
- stand echel
- blociau olwyn
- carntro olwyn
- dyfais symud cap both
- mesurydd pwysedd aer teiars
- mesurydd gwadn teiars

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros lacio nytiau olwyn cyn jacio'r cerbyd.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros ddefnyddio standiau echel.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwyr nodi rheswm dros ddefnyddio blociau yn erbyn olwynion sy'n aros ar y ddaear.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr:

- nodi olwyn i'w symud
- symud cap both gan ddefnyddio'r ddyfais gywir
- llacio nytiau ychydig
- gwirio'n weledol ei bod hi'n ddiogel parhau
- symud y nytiau olwyn a'u cadw'n ddiogel
- symud yr olwyn

Ar gyfer maen prawf 1.6 rhaid i'r dysgwyr wirio'r teiar am:

- traul anwastad
- niwed (holltiau a chraciau)
- dyfnder gwadn
- pwysedd aer

Ar gyfer maen prawf 1.7 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros wirio cyflwr y teiar.

Ar gyfer maen prawf 1.8 rhaid i'r dysgwr:

- ailosod olwyn ar gerbyd a'i dal yn ei lle gyda nytiau olwyn 'tyndra llaw'
- tynhau'r nytiau olwyn i'r trorym (torc) cywir
- ailosod cap both

Ar gyfer maen prawf 1.9 rhaid i'r dysgwr:

- glanhau a thacluso ardal weithio
- glanhau a storio dillad amddiffynnol personol
- golchi a sychu dwylo'n drylwyr.

Uned 330 Gwirio a chynnal lefelau hylifau mewn car neu fan modur

RHAU:	M/502/0764
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu gwirio a chynnal lefelau hylif mewn car neu fan modur.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi **hylifau a chronfeydd hylif**
- 1.2 cynnal gweithgareddau i wirio a chynnal lefelau hylifau
- 1.3 rhoi rheswm dros wirio bod yr hylif a ddefnyddir o'r radd a math cywir
- 1.4 rhoi rheswm dros ailosod capiau cronfeydd dŵr yn ddiogel
- 1.5 defnyddio, glanhau a storio PPE yn ddiogel.

Cwmpas

- 1.1 **hylifau a chronfeydd hylif** – enw olew, oerydd, hylif brêc, hylif cydiwr, hylif pŵer llywio, hylif golchi sgrin wynt.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod pam mae angen gwirio a chynnal lefelau hylif.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 rhoi rheswm dros wirio lefelau hylif
- 2.2 nodi pam mae angen cynnal lefelau.

Uned 330 Gwirio a chynnal lefelau hylifau mewn car neu fan modur Gwybodaeth ategol

Arweiniad a Thystiolaeth

Gellir gwneud hyn fel rhan o wasanaethu'r cerbyd yn rheolaidd. Lle mae angen graddfeydd olew penodol, dylid rhoi arweiniad i'r dysgwr.

Fel arfer, byddai'r dysgwr yn gwirio ac yn cynnal olew, golchudd sgrin ac un arall ond gellir amrywio hyn os yw rhai o'r cronfeydd dŵr yn anhygyrch.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr adnabod tri o'r hylifau a'r cronfeydd hylif a restrir yn yr ystod.

Ar gyfer maen prawf 1.2 bydd y dysgwr:

- adnabod ffon fesur olew injan
- nodi lefelau uchaf ac isaf yr hylif (fel y bo'n briodol)
- symud ffon fesur o'r injan
- sychu'n sych gyda thywel papur neu glwt
- gosod y ffon fesur i mewn i'r injan
- symud y ffon fesur, gwirio lefel olew
- ychwanegu gydag olew cywir i'r lefel 'uchaf' fel y bo'n briodol
- ychwanegu i'r lefel gywir â'r hylif cywir
- gwirio lefel potel golchwr sgrin wynt
- ychwanegu'r swm cywir o olch sgrin
- ychwanegu i'r lefel gywir â dŵr glân
- gwirio a chynnal lefel hylif mewn unrhyw gronfa arall
- gwirio bod pob cap llenwi cronfa ddŵr / cynhwysydd yn cael ei newid yn ddiogel
- gwirio bod ffon fesur olew injan yn cael ei newid yn gadarn.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros wirio bod yr hylif a ddefnyddir o'r radd a math cywir.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros ailosod capiau cronfeydd dŵr yn ddiogel.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr:

- glanhau a thacluso ardal weithio
- glanhau a storio dillad amddiffynnol personol
- golchi a sychu dwylo'n drylwyr

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros wirio lefelau hylif.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr nodi rheswm dros ychwanegu at lefelau hylif.

Uned 331 Gwirio a chynnal goleuadau ar gar neu fan modur

RHAU:	A/502/0766
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu cynnal goleuadau ar gerbyd neu fan modur.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 adnabod goleuadau ar gerbyd
- 1.2 gwirio bod goleuadau'n gweithio'n gywir
- 1.3 rhoi rheswm dros wirio bod goleuadau'n gweithio'n iawn
- 1.4 rhoi rheswm dros ailosod bylbiau nad ydynt yn gweithio
- 1.5 cynnal goleuadau ar gerbyd
- 1.6 rhoi rheswm dros gwblhau cofnodion gwasanaeth yn gywir
- 1.7 defnyddio, glanhau a storio PPE yn ddiogel.

Uned 331 Gwirio a chynnal goleuadau ar gar neu fan modur

Gwybodaeth ategol

Arweiniad a Thystiolaeth

Mae unrhyw gerbyd sydd â goleuadau safonol at ddefnydd y ffordd yn briodol. Gall tiwtor helpu i wirio bod goleuadau'n gweithio drwy weithredu'r switshis os oes angen. Dylai'r cerbyd gael ei 'rigio' fel bod o leiaf un bwlb yn gofyn am ei newid.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr adnabod yr holl oleuadau canlynol:

- prif lamp
- golau ochr
- dangosydd
- goleuadau brêc ôl
- goleuadau ôl
- goleuadau rhybudd niwl ôl dwysedd uchel
- goleuadau plât cofrestru ôl
- goleuadau cefnu.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr:

- gwirio bod pob golau yn gweithio'n gywir
- troi ymlaen / diffodd pob golau gan ddefnyddio gweithdrefnau cywir
- adnabod bwlb y mae angen ei newid.

Ar gyfer maes 1.3 mae'n rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros wirio bod yr holl oleuadau'n gweithio.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros ailosod bylbiau nad ydynt yn gweithio.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr:

- symud lens golau/gorchudd bwlb a'i gadw'n ddiogel
- symud bwlb o soced
- dewis a gwirio bod bwlb newydd yn gywir
- ailosod bwlb mewn soced
- gwirio ei fod yn gweithio'n iawn
- ailosod lens bwlb/gorchudd bwlb yn ddiogel.

Ar gyfer maen prawf 1.6 rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros gwblhau cofnodion gwasanaeth yn gywir.

Ar gyfer maen prawf 1.7 rhaid i'r dysgwr:

- glanhau a thacluso ardal weithio
- glanhau a storio dillad amddiffynnol personol
- golchi a sychu dwylo'n drylwyr.

RHAU:	J/502/0768
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gallu gosod plygiau tanio newydd.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 adnabod offer a chyfarpar a gwirio am ddiogelwch defnyddio 1.2 cynnal gweithgareddau i ailosod plygiau tanio 1.3 rhoi rheswm dros ailosod plwg tanio'n gywir 1.4 rhoi rheswm dros ddisodli'r lid(iau) tanio'n gywir 1.5 defnyddio, glanhau a storio PPE yn ddiogel.

Arweiniad a Thystiolaeth

Gellir defnyddio unrhyw injan tanio trwy wreichion ar gyfer yr asesiad hwn.

Er hwylustod, mae'n dderbyniol i'r asesiad gael ei gynnal ar injan a symudwyd o'r cerbyd ond dylid adnabod safle'r plwg tanio gyda'r injan yn ei lle.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr adnabod yr offer a'r cyfarpar canlynol a gwirio eu bod yn ddiogel i'w defnyddio:

- plwg/plygiau tanio
- sbaner plwg
- mesurydd teimlo
- plygiau tanio newydd.

Ar gyfer 1.2 mae rhaid i'r dysgwr gynnal y gweithgareddau canlynol:

- tynnu lid(iau) tanio o'r plwg tanio fel sy'n briodol
- dewis a gwirio bod sbaner plwg yn ffitio plwg tanio'n gywir
- symud plwg tanio'n gywir
- archwilio cyflwr plwg tanio
- gwirio bwlch plwg tanio mewn plygiau tanio newydd
- gwirio bod twll plwg tanio yn y pen silindr yn lân
- gosod plwg/plygiau tanio newydd mewn pen silindr a thynhau'n gywir
- ailosod lid(iau) tanio'n gywir
- cychwyn injan a gwirio'i fod yn rhedeg yn esmwyth.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros:

- ailosod plwg tanio
- gosod bwlch y plwg tanio'n gywir
- gwirio bod y twll plwg tanio ym mhen y silindr yn lân

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr roi rheswm dros ailosod y lid(iau) tanio yn gywir.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr:

- glanhau a thacluso ardal weithio
- glanhau a storio dillad amddiffynnol personol
- golchi a sychu dwylo'n drylwyr.

Uned 333 Cyflwyniad i'r diwydiant lletygarwch

RHAU:	H/506/2817
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gwybod pa rai yw'r prif allfeydd yn y diwydiant lletygarwch.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi enghreifftiau o wahanol fathau o allfeydd yn y diwydiant lletygarwch 1.2 rhoi enghreifftiau o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn y diwydiant lletygarwch

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gwybod am y cyfleoedd yn y diwydiant lletygarwch.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestro'r rolau swyddi sydd ar gael yn y diwydiant lletygarwch, 2.2 nodi ystod o gyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y diwydiant lletygarwch.

Uned 333

Cyflwyniad i'r diwydiant lletygarwch

Gwybodaeth ategol

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer yr uned hon, mae dysgwyr yn cael cyflwyniad cyffredinol i'r diwydiant lletygarwch gan gynnwys:

- paratoi a choginio bwyd
- gwasanaethau bwyd a diod
- gwasanaethau llety
- gwasanaethau gwesteion.

Disgwylir i ddysgwyr gyflawni'r uned hon mewn cyd-destun gweithio priodol.

RHAU:	J/506/8089
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i rai o agweddau allweddol bywyd gwaith a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gyflogai.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gwybod am y mathau o gyflogwyr sydd yn yr ardal leol.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 nodi cyflogwyr o wahanol sectorau yn yr ardal leol 1.2 nodi prif faes busnes y cyflogwyr 1.3 Nodi sut mae cyflogwyr yn gwneud arian neu'n cael eu cyllido .

Cwmpas
1.1 Sectorau: Sector gwasanaeth: cadwyn bwyd cyflym, gwallt a harddwch, cyfleusterau ffitrwydd, gwesty. Sector gweithgynhyrchu: ceir, rhannau ceir, car rhannau, llongau, technoleg, adeiladu. Sector Cyhoeddus: heddlu, tân, ambiwlans, gwasanaeth tân, llywodraeth leol, y GIG. Sector Preifat: cael ei redeg gan unigolion neu grwpiau preifat. 1.2 Wedi'i gyllido: elusen, llywodraeth, cyfraniadau, nawdd.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Deall disgwyliadau cyflogwr.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru'r disgwyliadau: a allai fod gan gyflogwyr o'u gweithwyr 2.2 rhoi rheswm pam mae disgwyliadau cyflogwyr yn bwysig.

Cwmpas
2.1 Disgwyliadau: lle mae gan gyflogwr hyder y gall gweithiwr wneud rhywbeth.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gallu cysylltu disgwyliadau cyflogwr â'u gweithgareddau eu hunain.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 nodi gweithgaredd a allai fodloni disgwyliadau cyflogwr

3.1 rhoi rhesymau pam mae hi'n bwysig cwrdd â disgwyliadau cyflogwr

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi un** cyflogwr o bob un o'r sectorau canlynol yn yr ardal leol a) sector gwasanaethau, b) y sector gweithgynhyrchu ac c) y sector cyhoeddus a'r sectorau preifat. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn dabl neu'n boster.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** prif faes busnes ar gyfer pob un o'r cyflogwyr.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn dabl neu'n boster

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** sut mae un o'r cyflogwyr hyn yn gwneud arian neu'n cael ei ariannu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n boster.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf ddau ddisgwyliad fyddai gan gyflogwyr o'u gweithwyr e.e. cadw amser da, cymwysterau, gwisg briodol, gonestrwydd, dibynadwyedd, cymhelliant. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr yn ddiagram corr yn neu'n boster

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi** rheswm pam mae un o'r disgwyliadau hyn yn bwysig e.e. cynnal safonau, cael gweithwyr dibynadwy, sicrhau bod gan bobl y cymwysterau cywir, rhoi argraff dda i gleientiaid, cyflawni rheoliadau iechyd a diogelwch. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corr yn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** gweithgaredd y mae wedi'i wneud a allai fodloni disgwyliad cyflogwr e.e. cyrraedd y gwaith yn brydlon, ennill cymhwyster penodol, gwisgo gwisg briodol, gweithio goramser. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corr yn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **roi un** rheswm pam mae hi'n bwysig bodloni disgwyliadau cyflogwyr e.e. cadw eu swydd, cael dyrchafiad, ymddiried ynddo. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corr yn.

RHAU:	T/506/8881
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd trwy nodi materion amgylcheddol a sut y gallant fynd ati i helpu'r amgylchedd.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 219 Mynediad 2 Ymwybyddiaeth amgylcheddol • 439 Lefel 1 Ymwybyddiaeth amgylcheddol

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Dangos ymwybyddiaeth o sut mae gweithrediadau pobl yn effeithio ar yr amgylchedd.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi enghreifftiau o ymddygiadau dynol sy'n niweidio'r amgylchedd 1.2 rhoi enghreifftiau o ymddygiadau dynol sy'n helpu'r amgylchedd.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Dangos dealltwriaeth o faterion amgylcheddol sy'n effeithio eu bywyd eu hunain.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 nodi gwahanol fathau o faterion amgylcheddol sy'n berthnasol iddyn nhw 2.2 nodi'r effeithiau a gaiff y materion hyn ar eu bywyd.

Cwmpas
2.1 a 2.2 Mae materion yn cynnwys: domestig, personol.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. Gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd i wella'r amgylchedd.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 nodi gweithgaredd i wella'r amgylchedd yn eu hardal leol eu hunain 3.2 cymryd rhan mewn gweithgaredd i wella'r amgylchedd yn eu hardal leol eu hunain.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer 1.1 mae angen i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o o leiaf ddau ymddygiad dynol sy'n niweidio'r amgylchedd. Gallai'r rhain gynnwys gollwng sbwriel, peidio ailddefnyddio bagiau plastig a gwastraffu egni. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, neu gallai syniadau gael eu cynhyrchu trwy drafodaeth grŵp cyhyd ag y caiff cyfraniad y dysgwr ei hun ei gofnodi'n glir.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o o leiaf ddau ymddygiad dynol sy'n helpu'r amgylchedd. Gallai'r rhain gynnwys ailgylchu, defnyddio 'bag am oes' a cherdded neu ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn lle teithio mewn car. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, neu gallai syniadau gael eu cynhyrchu trwy drafodaeth grŵp cyhyd ag y caiff cyfraniad y dysgwr ei hun ei gofnodi'n glir.

Ar gyfer meini prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr **nodi dau** o wahanol fathau o faterion amgylcheddol sy'n berthnasol i'w fywyd. Gallai enghreifftiau o faterion domestig gynnwys: defnyddio tanwydd ffosil, ailgylchu gwastraff a diffodd offer ac enghreifftiau o faterion personol gynnwys: y daith i'r ysgol, ailddefnyddio bagiau siopa. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer meini prawf 2.2 mae angen i'r dysgwr **nodi'r effaith y mae'r** materion a nodwyd yn 2.1 yn ei chael ar eu bywyd e.e. biliau ynni is, lleihau eu hól troed carbon, dinasyddiaeth dda. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer meini prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr **nodi** gweithgaredd y gallant ei wneud i wella'r amgylchedd yn ei ardal leol. Gallai hyn fod yn weithgaredd unigol (e.e. mynd â photeli i'r ganolfan ailgylchu, ailddefnyddio bagiau cludo) neu weithgaredd grŵp (e.e. helpu i lanhau darn o dir gwastraff, didoli dillad i elusen leol, casglu eitemau i'w hailgylchu). Dylai'r gweithgaredd gael ei gytuno ag unigolyn priodol (e.e. tiwtor, hyfforddwr neu oruchwyliwr). Gall tystiolaeth gynnwys ffotograffau wedi'u hanodi, fideo/dyddiadur ysgrifenedig neu ddatganiad tyst neu gofnod aseswr. Dylai tystiolaeth o'r cynllunio gynnwys y materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd.

Ar gyfer meini prawf 3.2 mae angen i'r dysgwr **gymryd rhan** yn y gweithgaredd i wella'r amgylchedd lleol y cytunwyd arno ar gyfer 3.1. Gall tystiolaeth gynnwys ffotograffau wedi'u hanodi, fideo/dyddiadur ysgrifenedig neu ddatganiad tyst neu gofnod aseswr. Dylai dysgwyr ddangos yn ystod y gweithgaredd eu bod wedi cadw at ofynion iechyd a diogelwch.

RHAU:	A/506/8882
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o effeithiau niweidiol camddefnyddio alcohol a chyffuriau.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 442 Lefel 1 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o alcohol • 444 Lefel 1 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau • 525 Lefel 2 Ymwybyddiaeth o gyffuriau • 526 Lefel 2 Ymwybyddiaeth o alcohol

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gwybod y gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn a diodydd alcoholig.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 amlinellu'r gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn ac alcoholig.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gwybod y gwahaniaeth rhwng cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhoi enghraifft o gyffur cyfreithlon 2.2 rhoi enghraifft o gyffur anghyfreithlon ,

Cwmpas
2.1 Cyfreithlon: ddim yn torri'r gyfraith. 2.2 Anghyfreithlon: yn torri'r gyfraith.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. Deall effeithiau camddefnyddio cyffuriau.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 rhoi enghreifftiau o gamddefnyddio cyffuriau 3.2 rhoi enghreifftiau o effaith camddefnyddio cyffuriau.

Cwmpas
3.1 a 3.2 Camddefnyddio : gordddefnydd a defnyddio ar gyfer y pwrpas anghywir. 3.2 Effaith : yr hunan ac eraill.
Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 4. Deall effeithiau camddefnyddio alcohol.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 4.1 rhoi enghreifftiau o gamddefnyddio alcohol 4.2 rhoi enghreifftiau o effaith camddefnyddio alcohol.

Cwmpas
4.1 a 4.2 Camddefnyddio : gordddefnydd a defnyddio ar gyfer y pwrpas anghywir. 4.2 Effaith : yr hunan ac eraill.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 5. Gwybod ble i gael help, cyngor a gwybodaeth i ymladd camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 5.1 rhoi enghreifftiau o ble gallwch chi gael cefnogaeth, cyngor a thriniaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio cyffur ac alcohol.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr amlinellu'r gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn ac alcoholig e.e. diod ysgafn - un nad yw'n cynnwys unrhyw alcohol fel lemonêd, coke, llaeth, diod alcoholig - un sy'n cynnwys alcohol fel gwin, chwisgi, fodca. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o gyffuriau cyfreithlon e.e. paracetamol, aspirin, gwrthfotigau, tybaco ac alcohol (os o'r oedran cywir). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o gyffuriau anghyfreithlon e.e. canabis, heroin, marijuana, amffetaminau, cocên, ecstasi. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o gamddefnyddio cyffuriau e.e. effeithiau corfforol, panig a pharanoia, colli cydgysylltiad, rhithwelediadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o effaith camddefnyddio cyffuriau e.e. ar faterion iechyd yr hunan, colli cymhelliad, perfformiad gwan yn y gwaith neu'r ysgol. Pobl eraill -ffrindiau, perthnasau teulu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o gamddefnyddio alcohol e.e., iechyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o effaith camddefnyddio alcohol e.e. ar y teulu, ffrindiau a pherthnasoedd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr roi enghreifftiau o ble y gallwch gael cymorth, cyngor a thriniaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol e.e. Drinkline, Addaction, Alcoholics Anonymous, Al-Anon, Alcohol Concern, Dewisiadau NHS, ADFAM, Cymdeithas Genedlaethol Plant Alcoholigion, Alcohol Focus Scotland, Siarad â Frank, Samariaid a gwasanaethau cymorth lleol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

RHAU:	A/506/8090
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddatrys problemau a helpu i ddatblygu sgiliau i fynd i'r afael â phroblemau mewn bywyd bob dydd.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 220 Mynediad 3 Delio â phroblemau mewn bywyd bob dydd • 430 Lefel 1 Delio â phroblemau mewn bywyd bob dydd

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall sut i adnabod problem uniongyrchol.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi problem **syml** rhannu syniadau
- 1.2 am ffyrdd o fynd i'r afael â phroblem.

Cwmpas

- 1.1 **Syml** syml, anghymhleth, tebygolrwydd uchel o gael ei datrys.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall sut i drin problem.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 nodi ffordd o drin y broblem
- 2.2 rhoi enghreifftiau o ble i gael **cyngor**
- 2.3 cynnal gweithgareddau i drin y broblem.

Cwmpas

- 2.2 **Cyngor** gwybodaeth ar beth neu sut i wneud rhywbeth.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn 3. Gallu adolygu eu cynnydd eu hunain wrth drin problem.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 adnabod beth aeth yn dda 3.2 nodi beth nad aeth gystal.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** problem syml e.e. rhwystr neu anhawster y mae angen ei ddatrys yn eu bywydau bob dydd eu hunain y mae'n bosibl iddynt eu datrys. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn drafodaeth grŵp cyhyd ag y caiff cyfraniad y dysgwr ei gofnodi'n glir.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr rannu o leiaf ddau syniad ar ddulliau y gallent eu cymryd i ddatrys y broblem gyda pherson priodol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar, yn gofnod aseswr neu mewn trafodaeth ag unigolyn priodol cyn belled â bod cyfraniad y dysgwr wedi'i gofnodi'n glir.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** ffordd o fynd i'r afael â'r broblem e.e. dod o hyd i wybodaeth, siarad ag eraill. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ble i gael cyngor e.e. rheolwr llinell, swyddog undeb llafur, gweithiwr cynghori elusennol, mentor, tiwtor, cymdeithas tenantiaid, Cyngor ar Bopeth, cydweithwyr, teulu a ffrindiau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ysgrifenedig neu lafar gan y dysgwyr, cofnod aseswr, poster neu ddiagram corrŷn.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **gyflawni** o leiaf ddau weithgaredd gyda'r nod o fynd i'r afael â'r broblem. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar, yn gofnod aseswr, neu'n ddatganiad tyst gan berson priodol,neu'n fideo.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** beth aeth yn dda e.e. pa mor dda y gwnaethant nodi'r broblem ar y dechrau, yr amser a'r adnoddau sydd ar gael a'r opsiynau a ddewiswyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** beth nad aeth mor dda e.e. pa mor dda y gwnaethant nodi'r broblem ar y dechrau, yr amser a'r adnoddau sydd ar gael a'r opsiynau a ddewiswyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

RHAU:	F/506/8091
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	30
Nod:	Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o rôl rhiant ac anghenion plant mewn uned deuluol.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall rôl rhiant mewn uned deuluol.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 rhestru prif **rolau** rhiant yn yr uned deuluol.

Cwmpas

- 1.1 **Rolau:** yr hyn y mae disgwyl i riant ei wneud neu fod.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gallu nodi hawliau plant mewn uned deuluol.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 nodi **hawliau** sylfaenol unigol plant o fewn y teulu.

Cwmpas

- 2.1 **Hawliau:** rhywbeth y gall plant ddisgwyl ei gael o uned deuluol.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall pwysigrwydd cyfathrebu â phlant.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 rhoi enghreifftiau o **sefyllfaoedd** lle mae'n bwysig gwrando ar blant
- 3.2 rhoi enghreifftiau o ddewisiadau y gellid eu rhoi i blant mewn **sefyllfaoedd** teulu penodol.

Cwmpas

Cyfathrebu: rhannu gwybodaeth a syniadau.

3.1 a 3.2 **Sefyllfaoedd:** beth sy'n digwydd ar adeg benodol.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Gallu adnabod **ymddygiad 'anodd'** a thechnegau i ddelio â hyn mewn plant o wahanol oed.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 rhoi enghreifftiau o **ymddygiad 'anodd'** ar gyfer plant o **wahanol oed**
- 4.2 rhoi enghreifftiau o ffyrdd y gallai rhiant ddelio ag **ymddygiad 'anodd'**.

Cwmpas

4.1 ac 4.2 **Ymddygiad 'anodd':** gweithredu mewn ffordd sy ddim yn dderbyniol.

4.1 **Gwahanol oedrannau:** baban, plentyn ifanc, rhai yn eu harddegau.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

5. Deall sut mae plant yn dysgu gweithgareddau teuluol bob dydd.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 5.1 nodi gweithgareddau teuluol bob dydd lle mae plant yn dysgu
- 5.2 rhoi enghraifft o weithgaredd ymarferol y gallai rhieni a phlant ei wneud gyda'i gilydd i helpu plant i ddysgu.

Canlyniad Dysgu
Bydd y dysgwr yn: 6. Deall eu hanghenion eu hunain fel rhiant.
Meini prawf asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 6.1 nodi eu hanghenion eu hunain fel rhiant 6.2 amlinellu sut mae modd cwrdd â'r anghenion hyn.

Cwmpas
6.1 a 6.2 Anghenion: rywbeth sy'n hanfodol, y mae ei angen neu sy'n bwysig.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **restru** prif rolau rhiant mewn uned deuluol. Gallai hyn gynnwys rhestr o'r rolau y maent yn eu cyflawni fel rhiant, y rolau y mae eu rhieni yn eu cyflawni neu'r rolau y maent yn bwriadu eu cyflawni wrth ddod yn rhiant eu hunain e.e. darparu amddiffyniad, cefnogaeth, lloches, ariannol, maeth, gofal, hoffter, cariad, cyfeillgarwch, athro, rhannu cyfrinach. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** hawliau sylfaenol unigol plant o fewn y teulu e.e. lloches, bwyd, cariad, dillad, addysg, triniaeth deg, sefydlogrwydd emosiynol, gofal iechyd, diogelu hawliau sifil, rhyddid rhag gwahaniaethu, rhyddid rhag cam-drin meddyliol, corfforol ac emosiynol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi** enghreifftiau o **sefyllfaoedd** lle mae'n bwysig gwranddo ar blant. Mae angen i'r dysgwr ddeall sut y gall plentyn fynegi ei hun a sut y dylent, fel oedolyn, gefnogi'r plentyn i gymryd rhan mewn sgwrs e.e. pan fydd plentyn wedi cynhyrfu, yn ddig, yn gofyn cwestiynau, ar ôl gweithgaredd, ysgol, chwarae neu ar unrhyw adeg y mae am roi rhywfaint o newyddion, bod ganddo broblem, eisiau lleisio barn, gofyn am gyngor. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn. (Gallai chwarae rôl fod yn offeryn defnyddiol yma gyda'r asesydd yn cymryd rhan y plentyn i annog y dysgwr i ddefnyddio sgiliau gwranddo gweithredol.)

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **roi** enghreifftiau o ddewisiadau y gellid eu rhoi i blant mewn sefyllfaoedd teuluol penodol. e.e. dillad, bwyd, adloniant, amser hamdden, cyswllt â theulu a pherthnasau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **roi** o leiaf un enghraifft o ymddygiad 'anodd' i blant o wahanol oedrannau. e.e. baban – crio cyson, plentyn ifanc – strancio eithafol, pobl ifanc yn eu harddegau – hwyliu amrywiol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **roi** enghreifftiau o ffyrdd y gallai rhiant ddelio ag ymddygiad 'anodd' e.e. baban – gwirio heb flino, oer, llwglyd, angen newid, plentyn ifanc – bod â siart seren am ymddygiad da, anwybyddu ymddygiad gwael, esbonio pam mae ymddygiad yn annerbyniol, gosod ffiniau a glynu wrthyn nhw, yn eu harddegau – ceisio siarad am faterion, cymryd diddordeb yn eu gweithgareddau, treulio amser gyda nhw, rhoi lle iddyn nhw, parchu eu teimladau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster neu'n ddiagram corrbyn.

Gellid cwblhau Maen Prawf 4.1 a 4.2 gyda'i gilydd ar ffurf tabl.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** gweithgareddau teuluol bob dydd y mae plant yn dysgu ynddynt. e.e. siarad, nofio, coginio, glanhau, chwarae gemau, mynd i barc, ar daith, siopa. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 5.2 rhaid i'r dysgwr **roi** enghraifft o weithgaredd ymarferol y gallai rhieni a phlant ei wneud gyda'i gilydd i helpu plant i ddysgu e.e. pobi cacen, chwarae gemau bwrdd, cyfrif, gemau rhyngweithiol, cynllunio llwybr ar gyfer taith, trefnu digwyddiad. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster neu'n ddiagram corryn. Mae angen i'r dysgwr hefyd ddeall pwysigrwydd dysgu trwy chwarae a gallai hwn fod yn weithgaredd ymarferol lle mae'r dysgwr yn cynllunio gweithgaredd chwarae ar gyfer un o'r camau bywyd a nodwyd ac yn cynhyrchu'r gweithgaredd hwn fel eu tystiolaeth.

Ar gyfer maen prawf 6.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** ei h/anghenion ei hun fel rhiant e.e. amser iddyn nhw eu hunain/apwyntiadau, amser allan gyda phartner/ffrindiau/teulu, ymarfer corff a ffitrwydd, maeth, addysg barhaus, hobiau, ymrwymadau gwaith. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 6.2 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** sut y gellir diwallu'r **anghenion** hyn e.e. trefnu gofal plant / gwarchodwr plant, cynllunio arferion dyddiol, cynllunio amser i ffwrdd, dod o hyd i gyfleusterau ymarfer corff gyda meithrinfa, cynllunio prydau bwyd yn wythnosol, ymchwilio i gyrsiau coleg, gwneud amser ar gyfer hobiau, siarad â bos ynglŷn ag oriau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster neu'n ddiagram corryn.

Gellid cwblhau Maen Prawf 6.1 a 6.2 gyda'i gilydd ar ffurf tabl.

RHAU:	J/506/8092
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i rai o'r materion sy'n wynebu rhieni newydd a'u hannog i nodi ffynonellau o gymorth a chefnogaeth.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 452 Lefel 1 Ymwybyddiaeth o rianta

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall galwadau gofalu am faban.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 rhestu'r ffyrdd y gall babani newydd osod pwysau **emosiynol**
- 1.2 rhestu'r ffyrdd y gall baban newydd roi heriau **corfforol** .

Cwmpas

1.1 **Yn emosiynol:** teimlo rhywbeth yn bersonol e.e. hapus neu bryderus.

1.2 **Yn gorfforol:** effeithio ar y corff e.e. camau a gweithgareddau.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod am y ffynonellau cymorth a chefnogaeth sydd ar gael i rieni.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 rhestru ffynonellau cymorth i rieni newydd
- 2.2 rhestru'r **cyfleusterau** yn yr ardal leol sy'n cefnogi rhieni gyda phlant ifanc
- 2.3 nodi ffyrdd y mae cymorth a chefnogaeth yn gallu bod o fudd i rieni newydd.

Cwmpas

2.2 Mae **Cyfleusterau** yn cynnwys: grwpiau neu fannau y mae pobl eraill yn rhoi cyngor a chefnogaeth iddynt.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gwybod sut i ddiogelu baban.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 amlinellu ffyrdd y gall rhiant amddiffyn baban rhag **sefyllfa** anniogel yn y cartref
amlinellu ffyrdd y gall rhiant amddiffyn baban rhag perygl iechyd rhoi enghreifftiau o bryd y dylai rhiant geisio cyngor meddygol am iechyd baban.

Cwmpas

3.1 **Sefyllfa:** beth sy'n digwydd ar adeg briodol.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf ddwy ffordd y gall baban newydd fod yn heriol yn emosiynol e.e.. straen, pryder, diffyg amser personol a rhyddid, pryderon ariannol, cyfrifoldeb. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar neu'n gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn. Gellid cynhyrchu syniadau trwy drafodaeth grŵp cyn belled â bod cyfraniad y dysgwr ei hun wedi'i gofnodi'n glir.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf ddwy ffordd y gall baban newydd fod yn feichus yn gorfforol e.e. diffyg cwsg, gofal baban 24 awr e.e. bwydo, golchi, dillad, meithrin, mynd â'r baban ar drafnidiaeth gyhoeddus, gosod amserlen waith. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn. Gallai syniadau gael eu cynhyrchu trwy drafodaeth grŵp cyhyd ag y caiff cyfraniad y dysgwr ei hun ei gofnodi.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf ddwy ffynhonnell o gymorth i rieni newydd, e.e. cymorth gyda gofalu am y baban fel ymwelydd iechyd, teulu a ffrindiau, cymorth ariannol fel grantiau mamolaeth, budd-dâl plant, credydau treth plant, rhwydweithiau cefnogaeth fel grwpiau babanod/plant bach, grŵp Ymddiriedolaeth Genedigaethau Genedlaethol (NCT), cymdeithasau bwydo o'r fron, cynlluniau Cychwyn Cadarn. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn. Gallai syniadau gael eu cynhyrchu trwy drafodaeth grŵp cyhyd ag y caiff cyfraniad y dysgwr ei hun ei gofnodi.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf ddau gymhwyster yn yr ardal leol sy'n cefnogi rhieni gyda phlant ifanc e.e. canolfan plant, canolfan iechyd, grŵp cymunedol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** o leiaf ddwy ffordd y mae cymorth a chefnogaeth yn gallu bod o les i rieni newydd e.e. mwy o incwm (o fudd-dâl plant neu gredydau treth), gwell hunanhyder, gwell bwydo neu batrymau cysgu, grŵp gwarchod babanod i roi peth amser rhydd, NCT yn rhoi cyfle i siarad â rhieni newydd eraill a chael cyngor. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** o leiaf ddwy ffordd y gall rhiant amddiffyn baban rhag sefyllfa anniogel yn y cartref e.e. gosod giât grisiau, peidio â gadael baban heb oruchwyliaeth ar wely, dal a bathio baban yn gywir, cadw draw oddi wrth anifeiliaid, gorchuddion diogelwch ar gyfer plygiau, cloeon cwpwrdd, storio glanhawyr cartrefi allan o gyrraedd, sedd car sy'n briodol i'w hoedran. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** o leiaf ddwy ffordd y gall rhiant amddiffyn baban rhag perygl iechyd e.e. sterileiddio offer bwydo, newid cewynnau yn rheolaidd, cadw anifeiliaid i ffwrdd o'r baban. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar, cofnod asesydd neu ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **roi** o leiaf ddwy enghraifft o bryd y dylai rhiant ofyn am gyngor meddygol am iechyd baban e.e. pan gafodd babi ergyd i'r pen, brech sydd â symptomau tebyg i Lid yr Ymennydd, pryder am ennill pwysau gwan, tymheredd hir neu anarferol o uchel, confylysiynau (ffitiau), unrhyw beth sy'n anarferol i'w f/baban ei hun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corryn.

RHAU:	K/506/8098
Lefel:	Mynediad 3
Gwerth credydau:	1
ODDA:	10
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i hunanasesu Bydd y dysgwr yn ystyried ei gryfderau a'i wendidau, ei sgiliau a'i rinweddau a'i nodau personol.
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> • 422 Lefe1 Hunanasesiad a datblygiad

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gwybod ei g/chryfderau a'i g/wendidau eich hun

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 rhestru ei **g/chryfderau** ei hun
- 1.2 rhestru ei **g/wendidau** ei hun
- 1.3 Nodi **gwendidau** i'w gwella.

Cwmpas

1.1 **Cryfderau:** hyder, agwedd o weithio'n galed, gweithio'n dda mewn tîm, cynorthwyol, dibynadwy.

1.2 a 1.3 **Gwendidau:** cadw amser gwael, diog, sgiliau trefnu gwael, diffyg sgiliau cyfathrebu.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod eich sgiliau a'ch rhinweddau.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 nodi eu **sgiliau** eu hunain
- 2.2 nodi ei **rhinweddau** ei hun
- 2.3 Rhestru ffyrdd y mae ei **sgiliau** ei hun yn gallu bod **o ddefnydd**
- 2.4 Rhestru ffyrdd y mae ei **r/rhinweddau** ei hun yn gallu bod **o ddefnydd**.

Cwmpas:

2.1 a 2.3 **Sgiliau**: gallu sydd wedi cael ei ddysgu.

2.2 **Rhinweddau**: nodweddion naturiol.

2.3 **O ddefnydd**: iddyn nhw eu hunain neu i eraill, o ran gwaith, dysgu neu fywyd personol.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gwybod am osod nodau.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 nodi **nod tymor hir**
- 3.2 nodi **nodau tymor byr**
- 3.3 nodi sut mae cyflawni **nodau tymor byr**.

Cwmpas:

3.1 **nod tymor hir**: yn debygol o gael ei gyflawni dros un, pump neu ddeng mlynedd a gall ymwneud â gwaith, dysgu neu fywyd personol.

3.2 a 3.3 **nodau tymor byr** Gellir eu cyflawni yn y dyfodol agos, o fewn diwrnod, wythnos neu ychydig fisoedd o bosibl a gallant ymwneud â gwaith, dysgu neu fywyd personol.

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf **bedwar** cryfder e.e. hyder, agwedd weithgar, sgiliau trefnu da, y gallu i weithio'n dda mewn tîm, egniol, llawn cymhelliant, cymwynasgar, dibynadwy, gallu i gyfathrebu'n dda, sgiliau rhyngbersonol da, y gallu i ddatrys problemau, bod yn brydlon. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi, yn rhestr neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf **ddau** wendid e.e. cadw amser yn wael, bod yn ddiog, sgiliau trefnu gwael, diffyg sgiliau cyfathrebu, diffyg hyder, annibynadwy, anghwrtais, paniglyd, anonest. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **nodi dau** wendid sy'n galw am welliant e.e. ble maen nhw'n teimlo y gallen nhw wella eu sgiliau, eu galluoedd neu'r ffordd maen nhw'n cyfathrebu neu'n rhyngweithio ag eraill. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** o leiaf **ddau** sgil (y gallu i wneud rhywbeth yn dda, gall ymwneud â gwybodaeth, dawn neu dalent sydd wedi'i nodi) e.e. sgiliau TG, siarad cyhoeddus, gyrru, prawfddarllen, arweinyddiaeth, chwarae chwaraeon, hyfforddi, chwarae offeryn cerdd, dawns, drama. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr yn ddiagram corrbyn neu'n boster wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** o leiaf **ddwy** nodwedd (cymeriad neu natur) e.e. caredigrwydd, amynedd, dealltwriaeth, ymddiriedaeth, dibynadwyedd, gofal. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr yn ddiagram corrbyn neu'n boster wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **restru dwy ffordd** y gall eu sgiliau eu hunain fod o gymorth (lle gellir defnyddio sgiliau er eu budd eu hunain neu eraill neu gefnogi amcan i'w gyflawni. Gall hyn ymwneud â gwaith, dysgu neu fywyd personol e.e. cynhyrchu cyflwyniad, trefnu cyfarfod, delio â chwsmeriaid, hyfforddi tîm. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn neu'n boster wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **restru dwy ffordd** y gall eu rhinweddau eu hunain fod o gymorth (lle gellir defnyddio sgiliau er eu budd eu hunain neu eraill neu gefnogi amcan i'w gyflawni. Gall hyn ymwneud â gwaith, dysgu neu fywyd personol e.e. gweithiwr dibynadwy, ennill cyfrifoldeb, ennill ymddiriedaeth yn y gwaith, helpu eraill. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr yn ddiagram corrbyn neu'n boster wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** nod tymor hir (nid oes angen i'r nodau fod yn gymhleth eu natur ond dylent fod yn realistig a galluogi'r dysgwr i weithio tuag at ei nodau mewn ffordd gynlluniedig) e.e. ennill cymwysterau ychwanegol, gweithio tuag at ddyrchafiad, cyrraedd targed gwerthiant blynyddol, newid cyfeiriad gyrfa, dysgu gyrru, Dug Caeredin. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr yn ddiagram corrbyn neu'n boster wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** o leiaf **ddau** nod tymor byr (nid oes angen i'r nodau fod yn gymhleth eu natur ond dylent fod yn realistig a galluogi'r dysgwr i weithio tuag at ei nodau mewn ffordd gynlluniedig) e.e. cyrraedd y gwaith yn brydlon, gorffen prosiect, dysgu sut i ddefnyddio darn o offer, dysgu sut i ddefnyddio meddalwedd newydd, trefnu calendr, mynd i mewn i sgwad chwaraeon, rhoi aseiniad i mewn. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr yn ddiagram corrbyn neu'n boster wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** gyda chymorth sut y gellir cyflawni'r nodau tymor byr gyda chymorth cydweithwyr, tiwtor, teulu neu gyfoedion. Dylai hyn gynnwys amserlenni, pwy fydd yn eu cefnogi, yr adnoddau sydd eu hangen a gwybodaeth arall yn ôl yr angen. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar, cofnod aseswr, diagram corrbyn, poster anodedig neu gynllun datblygiad personol syml (gallai hyn gynnwys 3.1 a 3.2).

Uned 341 Iechyd a diogelwch mewn mannau gwaith gwaith

RHAU:	T/506/8055
Lefel:	E3
Gwerth credydau:	2
ODDA:	20
Nod:	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i weithio'n ddiogel yn y gwaith
Asesiad:	Portffolio'r dysgwr
Gwahardd:	Dim

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol ar gyfer eu man gwaith eu hunain.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi pam mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn bwysig mewn man gwaith
- 1.2 nodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch sydd mewn grym yn eu man gwaith eu hunain.

Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gallu nodi eu cyfrifoldeb eu hunain am gadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel.

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 nodi cyfrifoldebau am eu hiechyd a diogelwch eu hunain a phobl eraill
- 2.2 cynnal eu gwaith eu hunain mewn modd diogel

Uned 341 Iechyd a diogelwch mewn mannau Gwaith

Gwybodaeth ategol

Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi rhesymau** dros ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch e.e. diogelu'r cyflogai, y cyhoedd, cydweithwyr ac ati. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr nodi deddfwriaeth sy'n berthnasol i'w leoliad gwaith e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, COSHH, Rheoliadau Gweithrediadau Trin â Llaw 1992. Dylent nodi un darn o ddeddfwriaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr ddeall bod gan bawb gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch a dylent allu **nodi'n** glir eu cyfrifoldebau eu hunain drostynt eu hunain a dros eraill. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

